# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 16 Ebrill 2018

Amser: 14.00 - 17.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4741

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Vikki Howells AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Adam Price AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Andrew Griffiths, NHS Wales Informatics Service (NWIS)<br>Steve Ham, Ymddiriedolaeth GIG Felindre |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Mark Jeffs<br>Mike Usher |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 Yn dilyn ystyriaeth yr Aelodau, cytunwyd y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurhad pellach am heriau digideiddio a chaffael cyhoeddus.

**2.1 Heriau Digideiddio: Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (4 Ebrill 2018)**

**2.2 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Gwybodaeth ychwanegol gan CLLC (Ebrill 2018)**

**2.3 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Gwybodaeth ychwanegol gan y Rhwydwaith Maethu (Ebrill 2018)**

**2.4 Caffael Cyhoeddus: Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (20 Ebrill 2018)**

## 3 Cyfoeth Naturiol Cymru: Craffu ar Gyfrifon Blynyddol 2015-16

3.1 Nododd yr Aelodau y llythyr a'r ffaith y bydd diweddariad pellach cyn toriad yr haf.

## 4 Archwiliad o Gydberthynas Gytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gydag RKC Associates Ltd a'i Berchennog

4.1 Nododd yr Aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gweithredu a'r ffaith y darperir diweddariad pellach ym mis Medi.

## 5 Craffu ar Gyfrifon 2017-18: Ystyried ymatebion i adroddiad y Pwyllgor

5.1 Ystyriodd yr Aelodau yr ymatebion i'r argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor a'u nodi.

5.2 Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ac at Llyfrgell Genedlaethol Cymru gyda sylwadau'r Pwyllgor ar eu hymatebion.

## 6 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: Sesiwn dystiolaeth 1

6.1 Cafodd yr Aelodau dystiolaeth gan Andrew Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Phrif Swyddog Gwybodaeth Cymru a chan Steve Ham, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Felindre fel rhan o'r ymchwiliad i Wasanaethau Gwybodeg GIG Cymru.

6.2 Cytunodd Steve Ham i anfon rhagor o wybodaeth ynglŷn â nifer o bwyntiau a godwyd.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

7.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

8.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 9 Adnoddau ar gyfer craffu ar Brexit: Llythyr gan y Llywydd (16 Mawrth 2018)

9.1 Trafododd yr Aelodau lythyr y Llywydd a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ymateb gyda'u barn.

## 10 Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru: Trafod yr adroddiad drafft

10.1 Nododd yr Aelodau yr ohebiaeth rhwng y Cadeirydd a'r Heads of the Valleys Development Company a'r ffaith y disgwylir ymateb yn nes ymlaen yr wythnos hon gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

10.2 Trafododd yr Aelodau yr adroddiad drafft a chytunodd i ystyried drafft arall mewn cyfarfod o'r Pwyllgor.